# RICHARDS, JOHN (bu farw 1808), gweinidog y Bedyddwyr yng Nghastellnewydd Emlyn;

**Enw:** John Richards
**Dyddiad marw:** 1808
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog y Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William Joseph Rhys

Anhysbys yw dyddiad ei eni, ond preswyliai ym Mlaengwyddon. Fe'i hurddwyd yng Nghastellnewydd ddiwedd 1778. Ef a ddechreuodd bregethu yn Llwyndafydd yn 1778, a symbylu'r gwrandawyr i godi capel yn 1779. Ef a fedyddiodd y saith cyntaf yn yr ' Engine ' (Glandŵr, Abertawe) a'u corffori'n eglwys yn 1780. Bugeiliai Soar, Llandyfn, 1793-5. Yng nghwrdd chwarter Chwefror 1796 cyflwynodd gynllun i addysgu pregethwyr ieuainc. Cyhoeddodd farwnad i David Powell y Notais yn 1797. Bu gyda'r Bedyddwyr Cyffredinol am saith mlynedd, ond dychwelodd yn 1807, a bu farw cyn cymanfa 1808.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys** , (1880 - 1967)

## Ffynonellau

*Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1930, 1931, 1932 (62), 1942 (16)

W. J. Rhys, *Hanes Dinas Noddfa, Glandwr* (1934), 20

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 112, 125, 349, 404

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746816

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Rhys, W. J., (1953). RICHARDS, JOHN (bu farw 1808), gweinidog y Bedyddwyr yng Nghastellnewydd Emlyn;. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RICH-JOH-1808

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGELL
THE NATIO
Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government